

Medrusrwydd penaethiaid – canllawiau i ysgolion

**Ffurflen ymateb
i'r
ymgyngoriad**

Eich enw: **Rebecca Williams**

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):
UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)

e-bost/rhif ffôn:
rebecca@athrawon.com / 01970 639950

Eich cyfeiriad:
UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylech anfon eich sylwadau erbyn **21 Gorffennaf 2014** i:

Tîm y Gweithlu
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu llenwch y ffurflen yn electronig ac anfonwch hi drwy'r:

e-bost: WorkForceTeamMailbox@cymru.gsi.gov.uk

Ticiwch y blwch sy'n eich disgrifio orau fel ymatebydd.

	Awdurdod lleol, awdurdod esgobaethol, ac ati		Pennaeth		Rhiant/Gwarchodwr
✓	Undeb		Dirprwy bennaeth/pennaeth cynorthwyol		Sefydliad arall yn y sector cyhoeddus neu'r sector gwirfoddol
	Llywodraethwr		Athro/athrawes		Arall*

***Os arall, rhowch fanylion:**

Cwestiwn 1 – A yw'r canllawiau yn rhoi digon o eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau'r holl bartïon sy'n ymwneud â materion medruswydd?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
--------	--------------------------	-----------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ychwanegol

Ar y cyfan, teimla UCAC bod y rolau a'r cyfrifoldebau wedi'u hamlinellu'n glir yn y canllawiau drafft.

Mae gennym bryderon ehangach ynghylch capasiti'r gwahanol bartïon i ysgwyddo'r cyfrifoldebau hynny, a manylwn ar y rheiny isod.

Yn ychwanegol at yr hyn sydd yn y canllawiau drafft o ran rolau a chyfrifoldebau, hoffwn weld argymhelliad dros gael **pwynt cyswllt** o fewn yr Awdurdodau Lleol ar gyfer y Pennaeth sy'n mynd drwy broses Medruswydd; yn ddefnyddiol, swyddog o'r adran Adnoddau Dynol fyddai'r person hwnnw. Byddai'r pwnt cyswllt yn gallu darparu gwybodaeth am y broses ei hun, ac yn bwynt cyfeirio o ran darpariaeth iechyd galwedigaethol yn ogystal. Mae gennym brofiad cyson o benaethiaid sy'n mynd trwy broses medruswydd sy'n ei chael hi'n anodd cael pwnt cyswllt unigol, cyson drwy'r broses – gyda gwahanol swyddogion â gwahanol lefelau o arbenigedd/ adnabyddiaeth o'r achos penodol yn ceisio ymdrin â'r mater. Mae hyn yn gallu cymhlethu'r ac oedi'r broses, a gall peri rhwystredigaeth a straen. Yn ein profiad ni, mae'n gallu bod yn rhwyddach i Gadeirydd y Llywodraethwyr gael cyngor gan yr Awdurdod nag yw hi i'r Pennaeth ei hun, ac mae hynny'n wendid yn y system.

Er bod y rolau yn cael eu nodi mae UCAC yn rhagweld trafferthion o ran y **rhannu dyletswyddau rhwng yr awdurdod priodol a'r consortiwm**. Rydym yn cydnabod bod y ffin rhwng cyfrifoldebau Awdurdodau Lleol a chonsortia rhanbarthol yn parhau i fod yn niwlog, ond awgrymwn mai'r Awdurdod Lleol ddylai fod yn ysgwyddo rôl y cyflogwr (polisiâu a phrosesau adnoddau dynol, iechyd galwedigaethol ac ati), tra bod y consortiwm yn canolbwyntio ar faterion gwella ysgolion – gan gynnwys cefnogaeth a hyfforddiant i'r Pennaeth.

Hoffem weld cryfhau'r geiriad sy'n dyrannu'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod darpariaeth **iechyd galwedigaethol** ddigonol yn ei lle ar gyfer Pennaeth sy'n mynd drwy brosesau Medruswydd.

Cwestiwn 2 – A yw'r ymagwedd tri cham arfaethedig yn cofnodi'r holl weithdrefnau gweithredol angenrheidiol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	-----------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

Mae UCAC yn croesawu'r diffiniad clir o'r tri cham.

Croesawn yn ogystal y pwyslais trwy gydol y broses ar dderbyn cymorth wedi'i **'deilwra,... mew'n amgylchedd cefnogol'**. Ar sail ein profiad diweddar, dyma'r elfen fwyaf diffygiol yn y drefn medruswydd i athrawon, yn arbennig yn ystod y cam anffurfiol. Rydym wedi cael lle i herio'r broses ar sail y diffyg hwn sawl tro.

Byddem yn argymhell rhoi ychydig mwy o bwyslais yn y cam anffurfiol ar gymryd i ystyriaeth **amgylchiadau a chyd-destun penodol** y Pennaeth a'r ysgol wrth wneud

yr ymchwiliad cychwynnol – ac i beidio bod yn llwyr ddibynnol ar ddata. Hoffem weld ychwanegu cyfeiriad fan hyn at y cymal yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol ynghylch cyfrifoldeb cyrff llywodraethu i “ystyried yr angen i'r pennaeth...allu sicrhau cydbwysedd boddhaol rhwng yr amser sydd ei angen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau proffesiynol...a'r amser sydd ei angen arnynt i ddilyn eu diddordebau personol y tu allan i'r gwaith.” Rhaid ystyried yn y cam hwn o'r broses a yw'r llwyth gwaith yn rhesymol, ac a yw'r gefnogaeth (gan gynnwys hyfforddiant) yn ddigonol i alluogi pennaeth i ysgwyddo'r holl gyfrifoldebau i'r lefel ddisgwyliedig. Os mai'r ateb i'r cwestiynau hyn yw 'na' – nid medruswydd y pennaeth ddylai fod dan sylw, ond dyletswydd gofal y cyflogwr. Mae'n allweddol bod **rôl i'r cynrychiolydd undebol o'r cychwyn cyntaf** – gan gynnwys yn y cam anffurfiol. Gall hynny helpu i wyntyllu'r holl agweddau perthnasol o'r sefyllfa, a sefydlu ymddiriedaeth rhwng y partion.

Mae angen **gosod meini prawf clir**, wedi'u cytuno, er mwyn diffinio 'llwyddiant' wrth ymateb i'r cynllun cefnogi. Mae'n hollbwysig bod y pennaeth dan sylw, a'r corff llywodraethu, yn gwybod beth yw'r nod, a sut fydd pawb yn gwybod os/pan fydd y nod wedi'i gyrraedd. Ni ddylai fod yn bosib i'r pennaeth brofi ei b/fod yn gallu cwrdd â'r gofynion, ac wedyn bod y gofynion yn newid o fewn y broses medruswydd (h.y. symud y gôl).

Yng nghanam 2a, gwrthwynebwn yn gryf rhestru '**data cyrhaeddiad disgyblion**' fel un o'r darnau o dystiolaeth ar gyfer gwelliant. Rydym yn derbyn yn llwyr bod arweinyddiaeth ysgol yn gallu effeithio ar ganlyniadau disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r cysylltiad yn un uniongyrchol (fel yn achos athro dosbarth) ac nid yw newidiadau i ddulliau arweinyddol yn y tymor byr yn mynd i effeithio'n gyflym ar ganlyniadau. Teimlwn y byddai gosod gwelliant yng nghyrhaeddiad disgyblion fel nod yn arwain at bennu gofynion afrealistig, fyddai'n amhosib i'r pennaeth dan fedruswydd ymgysylltu atynt. Heblaw am yr amserlen dynn, mae cymaint o ffactorau eraill (anghenion dysgu ychwanegol, problemau iechyd/emosiynol, absenoldeb ac ati) sydd y tu hwnt i reolaeth y pennaeth yn dylanwadu ar gyrhaeddiad disgyblion - ac yn enwedig felly pan fydd y carfannau'n fach - fel bod gosod hwn fel nod yn ofyniad annheg yng nghyd-destun proses medruswydd.

Un peth sydd ar goll o'r canllawiau ar hyn o bryd, ac sydd angen ei nodi'r glir, yw bod modd **ailadrodd unrhyw un o'r camau** ar unrhyw adeg os yw'r cyd-destun yn cyfiawnhau hynny.

Cwestiwn 3 – A yw'r amserlenni cyffredinol yn y canllawiau yn briodol, gan ddarparu amser digonol ym mhob cam i nodi pryderon yn llawn a mynd i'r afael â hwy?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
--------	--------------------------	-----------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

Mae UCAC yn derbyn yn llwyr yr egwyddor na ddylid oedi'n ormodol rhag mynd i'r afael â diffygion. Nid yw oedi o'r fath yn llesol i unrhyw un o'r partion.

Fodd bynnag, mae lle i wahaniaethu rhwng diffygion yn rôl athro dosbarth a swyddogaeth pennaeth. Mae 20-30 diwrnod yn amser rhesymol i arddangos gwelliant mewn sgiliau llawr dosbarth. Mae rôl addysgu gan nifer helaeth o benaethiaid cynradd, ac os yw'r broblem medruswydd yn ymwneud â'i rôl llawr dosbarth, cytunwn â'r amserlen gyffredinol o 20-30 diwrnod.

Ond, os yw'r diffygion yn ymwneud â'r rôl arweinyddol/rheolaethol, teimlwn yn gryf

bod angen cyfnod hirach o amser i amlygu gwelliannau. Er y byddai modd dangos newid mewn *ymddygiad neu arferion*, ni fyddai'r cyfnod a grybwyllir yn y canllawiau ddrafft yn ddigonol i ddangos newid mewn *deilliannau*. Awgrymw'n y dylid ychwanegu cymal sy'n dweud y dylai bod perthynas rhesymol rhwng y nodau a osodir (a'r dystiolaeth a ddisgwylir i brofi bod y pennaeth wedi cyrraedd y nod) a'r cyfnod o amser a ganiateir ar gyfer ymgyrraedd at y nod a chasglu'r dystiolaeth. Byddai hynny'n caniatáu hyblygrwydd i gymryd i ystyriaeth natur y pryderon a'r tanberfformiad, a phennu amserlen sy'n gweddu ac sy'n realistig i'r cyd-destun penodol.

Byddem yn fodlon i'r canllawiau nodi bras-amserlen – ond ni fyddem yn cytuno â'r datganiad bod 20-30 yn normal a bod unrhyw gyfnod arall ar gyfer 'amgylchiadau eithriadol' yn unig.

Cwestiwn 4 – A yw'r gweithdrefnau medrusrwydd yn rhoi sail ddigon trylwyr i asesu sgiliau, cymhwysedd a dawn y pennaeth?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
--------	--------------------------	-----------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ychwanegol

Mae'r pwyslais ar gael person sydd heb ymwneud â'r ysgol yn flaenorol i ymchwilio i'r pryderon yn gam cychwynnol pwysig.

Cwestiwn 5 – A yw'r canllawiau arfaethedig yn gweithio'n dda fel dull effeithiol o gynorthwyo'r pennaeth i gyflawni gwell perfformiad gwaith?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	-----------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

Croesawn y pwyslais drwy gydol y ddogfen ar gynorthwyo'r pennaeth i wella perfformiad. Mae'r gofyn "i bob parti fod yn glir ynghylch safonau perfformiad disgwyliedig a sut y rhoddir tystiolaeth o hyn" yn greiddiol i lwyddiant y broses.

Rydym yn wirioneddol bryderus am ddigonolrwydd ac ansawdd yr arweiniad fydd ar gael i benaethiaid sy'n cael eu hunain mewn sefyllfa o'r fath. Gellid dadlau mai dyma'r elfen bwysicaf oll o ran cyflawni gwell perfformiad gwaith, a dyma'r elfen wanaf yn y system ar hyn o bryd.

Cwestiwn 6 – A yw'r canllawiau arfaethedig yn gweithio'n dda fel dull effeithiol o gynorthwyo Cadeirydd y Llywodraethwyr i gyflawni gwell perfformiad gwaith i benaethiaid?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	-----------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

Mae rôl y Cadeirydd yn glir. Rydym yn falch iawn gweld y cyfeiriadau cyson yn y ddogfen at “gynorthwyo a monitro...mewn ffordd anfygythiol gyda chydymdeimlad”.

Rhaid cwestiynu, fodd bynnag, i ba raddau y mae gan Gadeiryddion y cefndir a'r hyder i ddelio â mater mor bwysig. Yn y cyd-destun hwn, mae hyfforddiant ac arweiniad yn greiddiol. Croesawn y datganiad “... y gofyniad allweddol yw sicrhau bod cyngor yn glir, yn gyson ac o ansawdd uchel.” Nid dyma'r sefyllfa ar draws Cymru ar hyn o bryd.

Cwestiwn 7 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig yn eich poeni nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y blwch hwn i'w nodi.

Rydym yn pryderu'n fawr am y **capasiti o fewn y consortiwm**, o ran amser a phersonél, i gynnig digon o gymorth o safon uchel, yn ddigon cyflym i alluogi pennaeth i ddod allan o'r broses medruswydd.

Mae gennym bryder hefyd o ran **sicrhau bod llywodraethwyr wedi eu hyfforddi**'n drwyadl i gyflawni'r rôl hon. Byddai hyfforddi panel o bob ysgol yn ddefnydd aneffeithiol o adnoddau. Os yw'r hyfforddiant yn digwydd yn ôl yr angen, bydd angen i'r Awdurdod Lleol allu camu mewn yn gyflym iawn i'w ddarparu er mwyn galluogi i'r broses fynd rhagddi'n amserol.

Er eglurder llwyr, credwn y byddai'n werth nodi yn y Canllawiau, mai'r **Canllawiau Medruswydd i Benaethiaid** yw'r canllawiau i'w dilyn mewn perthynas â Phennaeth – hyd yn oes os yw'r pryderon ynghylch y ei sgiliau addysgu. Y rheswm am hynny yw atebolrwydd y Pennaeth i'r corff llywodraethu, a chyfrifoldeb y corff i lywio'r broses – yn wahanol i'r broses ar gyfer athrawon.

Yn ogystal, credwn y dylid nodi mai **person â SAC ddylai fod yn arsylwi** ac yn rhoi cefnogaeth mewn sefyllfa o bryder ynghylch perfformiad y pennaeth *fel addysgwr*.

Er bod y ddogfen yn pwysleisio gwarchod cyfrinachedd trwy gydol y broses, gwyddom o brofiad nad yw hyn yn digwydd ym mhob achos. Byddai'n ddefnyddiol i nodi yn y Canllawiau **pwy sy'n gyfrifol am reoli cyfrinachedd** a'i nodi fel cyfrifoldeb ar gyfer pob parti perthnasol dan y pennawd 'Rolau a chyfrifoldebau'.

Ar dudalen 9, mae anghysondeb rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn y pwynt bwled cyntaf. Deallwn mai'r Saesneg sy'n gywir a bod **penaethiaid yn parhau i fod yn gyfrifol am reoli perfformiad staff yr ysgol** hyd yn oed os ydynt mewn prosesau medruswydd. Ar hyn o bryd, mae'r Gymraeg yn nodi'r gwrthwyneb.

Mae angen bod yn gwbl glir yn y Canllawiau nad yw'n briodol i **staff-lywodraethwr** fod yn rhan o unrhyw un o baneli'r corff llywodraethol sy'n ymwneud â phroses medruswydd y pennaeth (panel medruswydd, panel disgyblu, panel apêl).

Ar dudalen 9, pwynt bwled 5, mae cyfeiriad at '**gyfnod prawf**'; nid oes cyfnod prawf safonol o'r fath yn bodoli ar gyfer penaethiaid, ac awgrymwn ddileu'r cyfeiriad.

Yn y siart yn **Atodiad D**, awgrymwn ddileu'r rhes uchaf yn llwyr. Er y gall y partion hyn oll gynnig tystiolaeth berthnasol, nid ydynt yn rhan o'r broses medruswydd ffurfiol, ac mae eu presenoldeb ar ben y siart yn creu naws a thôn bygythiol. Felly hefyd cyfeiriad at 'bryderon y consortiwm' yn y blwch llwyd uchaf; nid ydym o'r farn bod angen nodi tarddiad y pryderon - mae'n ddigon i nodi 'pryderon'.

Yn Atodiad D yn ogystal, awgrymwn y dylid ychwanegu i'r siart llwybr ar gyfer medruswydd ar sail salwch, a chyfeiriad at wasanaethau Iechyd Galwedigaethol.

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: